GIG CYMRU NHS WALES | Perfformiad a Gwella Performance and Improvement

sands

# Llwybr cenedlaethol ar gyfer gofal mewn profedigaeth

## Llwybr Terfynu Beichiogrwydd oherwydd Llwybr Anomaleddau'r Ffetws

**Gosod teuluoedd wrth galon gofal profedigaeth, ym mhob rhan o Gymru**

# Cyflwyniad

**Mae'r llwybr hwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal mewn profedigaeth o ansawdd uchel i deuluoedd ar ôl Terfynu Beichiogrwydd oherwydd Anomaleddau'r Ffetws.**

- **Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau ar gyfer y llwybr hwn ar gael yma.**
- **Mae gwybodaeth am NBCP Cymru, gan gynnwys pecynnau adnoddau, padlets a phecynnau cymorth ar gael yma.**
- **Mae gwybodaeth ategol ac arweiniad cenedlaethol ar gael yma.**

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 2

**Terfynu Beichiogrwydd oherwydd Llwybr Anomaleddau'r Ffetws** 3

Gofal pan Amheuir bod Anomaledd y Ffetws 3

Pan fydd Anomaledd y Ffetws yn cael ei gadarnhau 5

Anomaledd y ffetws yn ystod Beichiogrwydd Lluosog 7

Cynllunio Gofal Personol 8

Terfyniad Meddygol 10

Terfyniad Llawfeddygol 12

Creu atgofion 14

Ar ôl Terfynu Beichiogrwydd oherwydd Anomaledd y Ffetws (TOPFA) 15

**Ymchwiliadau ac Archwiliadau** 16

Cofrestru ac Ardystio 18

Angladdau, Claddu ac Amlosgi 19

Ar ôl gadael yr ysbyty 20

# Terfynu Beichiogrwydd oherwydd Llwybr Anomaleddau'r Ffetws

## Gofal pan Amheuir bod Anomaledd y Ffetws

Pan amheuir anomaledd y ffetws, mae'r gofal yn bwyllog, yn barchus ac yn canolbwyntio ar y rhiant. Mae teuluoedd yn cael eu cefnogi i ddeall beth sy'n digwydd ym mhob cam o'r asesiad, gan gynnwys beth sy'n hysbys, beth sy'n ansicr, a beth allai ddigwydd nesaf. Mae'r gofal yn cael ei gydlynu a'i amseru i sicrhau bod teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, eu cefnogi a bod rhywun gyda nhw yn ystod cyfnod o sioc ac ansicrwydd dwys.

Os nad yw teuluoedd yn siŵr beth fydd yn digwydd, rhoddir y gofal canlynol heb ragdybiaeth na barn nes bydd unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud. Mae'n bwysig cydbwyso'r broses o ddarparu gofal ar gyfer galar disgwyliedig posibl ochr yn ochr â'r beichiogrwydd sy'n parhau.

### Timau

**Mae timau'n gweithio mewn ffordd gydlynol, gan gynnal parhad a chefnogaeth bersonol. Mae staff yn ymwybodol bod teuluoedd yn sylwi ar newidiadau mewn tôn, cyflymder ac ymddygiad, ac yn cyfathrebu'n agored er mwyn osgoi ofn diangen. Dangosir hyn gyda'r canlynol:**

- Mae nodiadau meddygol yn cael eu hadolygu a bod unrhyw hanes perthnasol blaenorol yn cael ei nodi.
- Mae iaith yn adlewyrchu dewisiadau'r teulu ei hun (e.e. ffetws neu faban).
- Mae ffeithiau hysbys yn cael eu hegluro wrth iddynt ddod i'r amlwg, eu rhannu'n glir, a hynny cyn gynted â phosibl.
- Os bydd oedi yn y sgan, neu os bydd angen aelod arall o staff, bydd hyn yn cael ei egluro ymlaen llaw.
- Mae cyflwyno staff ychwanegol yn cael ei nodi'n glir, gan gynnwys pwy ydyn nhw a'u rôl.
- Bydd yr angen am ail farn, adolygiad uwch neu atgyfeiriad yn cael ei egluro.
- Mae ansicrwydd yn cael ei gydnabod yn agored, gan gynnwys pryd y gallai rhagor o wybodaeth gymryd amser, a oes angen apwyntiadau ychwanegol, a ble a phryd mae'r rhain yn debygol o ddigwydd.

- Mae teuluoedd yn cael cyfleoedd i ofyn cwestiynau drwy gydol y broses.
- Mae gwybodaeth am gymorth arbenigol gan **ARC** yn cael ei chynnig mewn ffordd amserol a sensitif.

## Teuluoedd

**Yn ystod y cyfnod hwn, mae teuluoedd yn cael gofal tawel a pharchus sy’n eu helpu i ddeall beth sy’n digwydd a beth fydd yn digwydd nesaf. Byddant:**

- Yn teimlo bod eu hanes, gan gynnwys unrhyw brofedigaeth neu golled flaenorol, yn hysbys ac yn cael ei ystyried.
- Yn clywed iaith sy’n adlewyrchu eu dewisiadau eu hunain.
- Yn cael esboniadau clir o’r hyn sy’n hysbys hyd yma, cyn gynted ag y daw gwybodaeth ar gael.
- Yn deall beth sy’n digwydd pan fydd oedi yn y sgan neu pan fydd y sonograffydd yn gadael yr ystafell, a pham mae hyn yn angenrheidiol.
- Yn gwybod pwy yw unrhyw staff ychwanegol, pam eu bod nhw’n cael eu cynnwys, a beth yw eu rôl.
- Yn deall pryd a pham mae angen ail farn, adolygiad uwch neu atgyfeiriad.
- Yn cael eu cefnogi i ddeall ansicrwydd, gan gynnwys pryd y gallai rhagor o wybodaeth gymryd amser, a oes angen apwyntiadau ychwanegol, a ble a phryd y mae’r rhain yn debygol o ddigwydd.
- Yn cael amser a lle i ofyn cwestiynau drwy gydol y broses.
- Yn cael gwybod am gymorth arbenigol, gan gynnwys ARC, a deall sut y gallai’r cymorth hwn eu helpu.
- Yn cael manylion cyswllt brys clir os ydynt yn dychwelyd adref.

# Pan fydd Anomaledd y Ffetws yn cael ei gadarnhau

Pan fydd anomaledd y ffetws yn cael ei gadarnhau, bydd yr wybodaeth yn cael ei chyfleu yn glir, yn sensitif ac yn breifat. Mae'r gofal yn cael ei arwain mewn ffordd gydlynol a chyson, gyda'r tîm yn parhau'n gyfrifol am gyfathrebu, esbonio a'r camau nesaf. Mae teuluoedd yn cael eu cefnogi i ddeall beth sydd wedi cael ei gadarnhau, beth sy'n dal yn ansicr, a sut y gallai hyn effeithio ar benderfyniadau, amserlenni a threfniadau gofal.

I rai teuluoedd, ni fydd cymorth mewn profedigaeth yn briodol mwyach, a dylid rhoi gofal iddynt yn unol â'r llwybr priodol.

## Timau

### Mae gofal clir a chyson ar adeg y cadarnhad yn cael ei ddangos pan:

- Mae'r canfyddiadau sydd wedi'u cadarnhau yn cael eu hegluro'n glir, gan gynnwys unrhyw angen am asesiad pellach neu ail farn.
- Mae'r cyfle i weld y sgrin sganio yn cael ei gynnig, ac mae'r hyn sy'n cael ei ddangos yn cael ei esbonio.
- Mae llun o'r sgan yn cael ei gynnig, ac mae'r hyn y mae'r llun yn ei ddangos yn cael ei egluro'n glir.
- Mae'r fenyw/person sy'n geni yn cael cynnig i'w phartner neu rywun i roi cymorth fod yn bresennol.
- Mae ansicrwydd ac oedi yn cael ei gydnabod, a'r rhesymau drostynt a'r amserlenni disgwyliedig yn cael eu hesbonio.
- Mae'r rhesymau dros unrhyw atgyfeiriad i uned arall neu'r angen i deithio yn cael eu hegluro'n glir.
- Mae gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei rhoi, ac adnoddau ARC yn cael eu rhannu.
- Mae prif gyswllt mewn profedigaeth yn cael ei nodi a'i fanylion cyswllt yn cael eu rhannu.
- Mae teuluoedd yn cael amser i ystyried gwybodaeth ac opsiynau, heb bwysau.
- Mae unrhyw amserlenni cyfreithiol, clinigol neu sy'n gysylltiedig â gwasanaeth yn cael eu hegluro'n glir, gan gynnwys a ydynt yn effeithio ar yr opsiynau sydd ar gael neu leoliad y gofal.

## Teuluoedd

**Ar y pwynt hwn, mae teuluoedd yn profi dulliau cyfathrebu tawel, preifat, dan arweiniad clir wrth i’r cadarnhad ddigwydd. Mae teuluoedd:**

- Yn deall beth sydd wedi cael ei gadarnhau a beth fydd yn digwydd nesaf; gan gynnwys deall canfyddiadau, lle mae angen asesiad pellach neu ail farn, yn ogystal ag a oes angen atgyfeirio i uned arall neu deithio.
- Yn cael gwybodaeth mewn lleoliad preifat sy’n parchu arwyddocâd y foment.
- Yn cael cynnig y cyfle i weld y sgan ac unrhyw luniau a deall beth maen nhw’n ei ddangos.
- Yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i gael partner neu rywun i’w cefnogi yn bresennol.
- Yn cael gwybod os oes oedi a deall y rhesymau am hynny.
- Yn cael gwybodaeth ysgrifenedig a ffynonellau dibynadwy i gyfeirio atynt ar ôl trafodaethau, gan gynnwys ARC.
- Yn profi dulliau cyfathrebu cyson ar draws gwahanol dimau a gwasanaethau.
- Yn cael amser a lle i ystyried gwybodaeth a dewisiadau, heb bwysau.
- Yn deall unrhyw amserlenni cyfreithiol, clinigol neu gysylltiedig â gwasanaeth a allai effeithio ar eu dewisiadau.
- Yn gwybod bod modd ailedrych ar benderfyniadau a deall yr amserlenni ar gyfer gwneud newidiadau.
- Yn deall pa gymorth ysbrydol neu fugeiliol sydd ar gael iddynt.
- Yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i ddychwelyd adref yn ddiogel neu fwrw ymlaen â’r camau nesaf y cytunwyd arnynt.

# Anomaledd y ffetws yn ystod Beichiogrwydd Lluosog

Pan fydd marwolaeth yn y groth yn digwydd mewn beichiogrwydd lluosog, mae gofal yn cydnabod cymhlethdod galaru un baban neu fwy wrth fwrw ymlaen â beichiogrwydd sy’n parhau. Gall teuluoedd brofi profedigaeth ochr yn ochr â gobaith, pryder a gofynion gofal clinigol parhaus.

## Timau

### Mae gofal tosturiol a phersonol yn cael ei ddangos pan:

- Mae cymhlethdod emosiynau yn cael ei gydnabod, a phan fydd profedigaeth ochr yn ochr â’r beichiogrwydd sy’n parhau yn cael ei nodi.
- Mae’r iaith yn cael ei defnyddio’n ofalus, a dylid osgoi cyfeiriadau at y baban sy’n goroesi fel ‘canlyniad cadarnhaol’ mewn trafodaethau am golled.
- Mae gwybodaeth glir yn cael ei rhoi am unrhyw fonitro ychwanegol neu apwyntiadau sydd eu hangen ar gyfer y beichiogrwydd sy’n parhau.
- Mae cymorth arbenigol mewn profedigaeth yn cael ei gynnig i deuluoedd sy’n colli mewn beichiogrwydd lluosog, gan gynnwys adnoddau gan **Twins Trust**.
- Mae’r system signalau y cytunwyd arni’n lleol yn cael ei defnyddio i rybuddio staff bod hwn yn feichiogrwydd lluosog gyda cholled.
- Mae cofnodion meddygol yn cael eu hadolygu ac mae systemau signalau’n cael eu deall a’u defnyddio’n gyson.
- Nad oes yn rhaid i deuluoedd esbonio dro ar ôl tro bod un neu fwy o’u babanod wedi marw.

## Teuluoedd

### Wrth i ofal gydnabod profedigaeth a beichiogrwydd sy’n parhau, mae teuluoedd:

- Yn teimlo bod eu galar yn cael ei gydnabod, hyd yn oed pan fydd un baban neu fwy yn dal yn fyw.
- Yn cael pobl yn siarad â nhw mewn ffyrdd sy’n cydnabod eu colled a’r beichiogrwydd sy’n parhau.
- Yn gallu osgoi esbonio dro ar ôl tro bod un neu fwy o’u babanod wedi marw.
- Yn teimlo’n hyderus bod staff sy’n ymwneud â’u gofal yn deall eu hamgylchiadau ac yn cyfathrebu’n gyson.
- Yn deall y cynllun ar gyfer monitro a gofalu yn ystod y beichiogrwydd sy’n parhau.
- Yn cael cynnig ffynonellau cymorth arbenigol sy’n berthnasol i golli yn ystod beichiogrwydd lluosog.

# Cynllunio Gofal Personol

Bydd dewisiadau meddygol a llawfeddygol yn cael eu trafod yn ofalus, yn breifat ac yn eglur yn dilyn diagnosis o anomaledd y ffetws. Mae timau'n cefnogi teuluoedd i ddeall eu dewisiadau, ac maent yn cael gwybodaeth glir a chytbwys am derfyniad meddygol a llawfeddygol. Bydd teuluoedd yn cael cefnogaeth i ddeall bod gan ddewisiadau meddygol a llawfeddygol broffiliau risg tebyg, ac nad yw'r naill opsiwn na'r llall yn gynhenid well ar gyfer iechyd corfforol neu seicolegol.

**Mae teuluoedd yn cael gwybodaeth glir a realistig am derfyniad meddygol a llawfeddygol, gan gynnwys:**

- Beth mae pob triniaeth yn ei olygu,
- Lle bydd y gofal yn digwydd,
- Pwy fydd yn bresennol ac a fydd cleifion eraill gerllaw,
- Risgiau posibl, cymhlethdodau posibl, hyd disgwyliedig yr arhosiad a'r broses wella,
- Sut y gallai'r dull a ddewiswyd effeithio ar opsiynau ar gyfer Archwiliad Post-mortem a chreu atgofion
- Gwybodaeth gan **ARC** yn ogystal â gwasanaethau cymorth seicolegol.

## Timau

**Mae timau'n cefnogi penderfyniadau gwybodus ac yn datblygu neu'n adolygu cynlluniau gofal personol mewn ffordd amserol ac ystyriol. Dangosir hyn gyda'r canlynol:**

- Mae cyswllt allweddol mewn profedigaeth yn cael ei nodi ar y cynllun gofal personol.
- Mae'r cynllun gofal personol yn cael ei ailystyried a'i ddiweddaru, a phan fydd yn glinigol ddiogel, bydd dewisiadau ar gyfer man gofal yn cael eu trafod.
- Mae dewisiadau rheoli poen, gan gynnwys analgesia, yn cael eu trafod yn rhagweithiol ac mae dewisiadau'n cael eu cofnodi.
- Mae trefniadau cyfathrebu, gan gynnwys pwy fydd yn arwain trafodaethau, yn cael eu cofnodi.
- Mae dewisiadau i greu atgofion yn cael eu trafod, eu cofnodi, ac mae teuluoedd yn gwybod y gallant newid eu meddwl.
- Mae anghenion cymorth ysbrydol, ffydd neu fugeiliol yn cael eu nodi a'u cofnodi.
- Pan fydd y fenyw/y sawl sy'n rhoi genedigaeth yn dychwelyd adref, bydd manylion cyswllt mewn argyfwng a chyngor clir ynghylch pryd i ofyn am help yn cael eu darparu.
- Mae cynlluniau ar waith i ddychwelyd i'r ysbyty, gan gynnwys trefniadau mynediad eraill.

## Teuluoedd

**Mae teuluoedd yn cael gohebiaeth glir a chydlynol am eu dewisiadau, beth i'w ddisgwyl nesaf, a phwy sy'n eu cefnogi, ac:**

- Yn gwybod pwy yw eu prif gyswllt mewn profedigaeth a sut mae cysylltu â nhw.
- Yn teimlo bod ganddynt wybodaeth am eu dewisiadau a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau ar gyflymder sy'n addas iddyn nhw.
- Yn deall beth fydd yn digwydd yn ystod pob proses, gan gynnwys lle gallai cynlluniau newid.
- Yn cael gwybodaeth onest a sensitif am beth i'w ddisgwyl, gan gynnwys sut bydd yr olion yn edrych.
- Yn cael cyfle i adolygu neu ddatblygu cynllun gofal personol sy'n cynnwys creu atgofion.
- Yn deall y dewisiadau rheoli poen sydd ar gael ac yn teimlo eu bod yn gallu trafod dewisiadau a holi cwestiynau.
- Yn gwybod â phwy i gysylltu a sut i gael cymorth os ydynt yn dychwelyd adref cyn y driniaeth.

# Terfyniad Meddygol

Mae terfynu beichiogrwydd yn feddygol yn cael ei gefnogi drwy ofal tosturiol, cydlynol, sy'n cydnabod gofynion corfforol ac emosiynol ysgogi a geni yn dilyn anomaledd y ffetws.

## Timau

### Cyn ysgogi, mae gofal tosturiol yn cael ei ddangos pan:

- Mae'r staff sy'n darparu gofal yn wybodus ac yn cyfathrebu'n sensitif gan ddefnyddio iaith briodol mewn amgylchedd preifat a diogel.
- Mae dewisiadau rheoli poen, gan gynnwys analgesia, yn cael eu trafod ac mae dewisiadau'n cael eu cofnodi.
- Mae'r posibilrwydd o **arwyddion bywyd** yn cael ei drafod yn sensitif.
- Mae teuluoedd yn cael gwybod am yr ymddangosiad tebygol.
- Lle bo'n briodol yn glinigol, mae tîm meddygaeth y ffetws yn trafod yr opsiwn o ffetwsladdiad.
- Mae gwybodaeth am beth i'w ddisgwyl ar ôl genedigaeth yn cael ei rhannu, gan gynnwys gwaedu, poen, ymatebion emosiynol, a phwy i gysylltu â nhw gyda phryderon.
- Mae cyswllt allweddol a enwir yn cael ei nodi ac mae manylion cyswllt yn cael eu rhannu, gan gynnwys gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng.
- Mae cefnogaeth ysbrydol neu fugeiliol yn cael ei chynnig, ogystal â gwybodaeth am sefydliadau cymorth a **chefnogaeth arbenigol gan ARC**.
- Pan fydd y fenyw/sawl sy'n geni yn gadael yr ysbyty cyn yr enedigaeth, cytunir ar gynlluniau ar gyfer dychwelyd a chaiff y trefniadau teithio eu gwirio.

### Yn ystod yr esgor a'r enedigaeth yn dilyn ysgogiad meddygol, dangosir gofal tosturiol pan:

- Mae'r staff sy'n ymwneud â'i gofal yn gwybod ei chynllun geni a'i dewisiadau.
- Mae dilyniant mewn gofal yn cael ei flaenoriaethu, a phan fydd staff yn newid, mae cyflwyniadau'n cael eu gwneud yn glir ac yn sensitif.
- Mae'r broses drosglwyddo'n digwydd mewn ffordd dawel a pharchus, gydag ymwybyddiaeth o amgylchiadau'r teulu.
- Mae'r fenyw/sawl sy'n geni yn cael cefnogaeth i sicrhau bod partner neu rywun i'w chefnogi'n bresennol.
- Mae marciwr y cytunwyd arno'n lleol yn cael cydsyniad ac yn cael ei ddefnyddio.

## Teuluoedd

### Yn ystod yr esgoriad a'r enedigaeth yn dilyn terfyniad meddygol, mae teuluoedd:

- Yn teimlo bod rhywun yn gofalu amdanynt mewn amgylchedd tawel, preifat a pharchus.
- Yn teimlo bod pobl yn siarad â nhw mewn ffordd sensitif a thosturiol.
- Yn deall beth sy'n digwydd a beth i'w ddisgwyl nesaf.
- Yn teimlo'n hyderus bod eu cynllun gofal a'u dewisiadau yn hysbys ac yn cael eu parchu.
- Yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i reoli poen, gyda'u dewisiadau'n cael eu cydnabod.
- Yn barod ar gyfer yr ymddangosiad posibl ac unrhyw arwyddion o fywyd.
- Yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i gael partner neu rywun i'w cefnogi yn bresennol.
- Yn profi dilyniant mewn gofal, hyd yn oed pan fydd staff yn newid.
- Yn cael eu cyflwyno i staff mewn ffordd glir a sensitif.
- Yn deall pryd y bydd marcwyr y cytunwyd arnynt yn lleol yn cael eu defnyddio.
- Yn cael eu cefnogi i greu atgofion.
- Yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth a rhywun gyda nhw drwy brofiad dwys yn emosiynol.

# Terfyniad Llawfeddygol

Mae terfynu beichiogrwydd gyda llawdriniaeth yn cael ei gefnogi drwy ofal clir, cydlynol a thosturiol sy'n cydnabod effaith gorfforol ac emosiynol y driniaeth a'i chanlyniadau.

## Timau

**Cyn y driniaeth, caiff gofal tosturiol ei ddangos pan:**

- Mae teuluoedd yn cael gwybod ble bydd y driniaeth yn cael ei chynnal, beth i'w ddisgwyl, a phwy fydd yn rhan o'u gofal.
- Eglurir bod y driniaeth yn cael ei chynnal dan anesthetig cyffredinol/ tawelydd.
- Mae'r holl staff sy'n rhan o'r broses cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth yn ymwybodol o gyflwr y baban/ffetws ac yn defnyddio iaith sensitif a phriodol.
- Mae teuluoedd yn cael gwybod, yn dilyn rheolaeth lawfeddygol, efallai na fydd yn bosibl gweld na dal eu baban yn y ffordd y gallent fod wedi'i disgwyl.
- Mae teuluoedd yn cael gwybod nad yw Archwiliad Post-mortem llawn yn bosibl ar ôl rheolaeth lawfeddygol, ac y gallai rhai ymchwiliadau, fel profion genetig, fod ar gael o hyd.
- Mae cymorth yn cael ei gynnig i ystyried creu atgofion, cofroddion ac amser gyda'i gilydd lle bo hynny'n briodol.
- Mae teuluoedd yn dymuno mynd ag olion eu baban neu feichiogrwydd adref gyda nhw, caiff hyn ei hwyluso mewn modd sensitif yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd.
- Mae gwybodaeth am sefydliadau cymorth profedigaeth yn cael ei rhannu, gan gynnwys **cymorth arbenigol gan ARC.**
- Mae'r opsiwn o ychwanegu rhybudd clinigol neu farciwr at nodiadau'r fenyw/sawl sy'n geni yn cael ei drafod.
- Mae'r cynllun gofal y cytunwyd arno, gan gynnwys trefniadau dilyniant a'r cyswllt allweddol penodol, yn cael ei gofnodi yn y cofnod mamolaeth.
- Mae trefniadau'n cael eu gwirio i sicrhau bod y teulu'n gallu dychwelyd adref yn ddiogel.

**Ar ôl y driniaeth, caiff gofal tosturiol ei ddangos pan:**

- Mae staff yn cyfathrebu mewn modd sensitif a chyson.
- Mae teuluoedd yn cael eu cefnogi i gael gafael ar ofal a chymorth dilynol y cytunwyd arnynt.
- Mae manylion cyswllt parhaus yn cael eu cadarnhau.

## Teuluoedd

### Cyn ac ar ôl y driniaeth, mae teuluoedd:

- Yn cael gofal mewn amgylchedd preifat a phriodol gyda phobl yn cyfathrebu â nhw mewn modd sensitif a chyson.
- Yn deall efallai na fydd yn bosibl creu atgofion fel y byddant wedi'i ddisgwyl o bosibl.
- Yn cael cymorth i ystyried creu atgofion, cofroddion ac amser gyda'i gilydd lle bo hynny'n briodol.
- Yn deall nad yw Archwiliad Post-mortem llawn yn bosibl ar ôl rheolaeth lawfeddygol, ac yn gwybod y gallai rhai ymchwiliadau fod ar gael o hyd.
- Yn cael gwybodaeth am sefydliadau cymorth mewn profedigaeth, gan gynnwys ARC.
- Yn teimlo'n hyderus bod eu cynllun gofal a'u trefniadau dilyniant yn cael eu cofnodi'n glir a'u rhannu rhwng staff
- Wedi cytuno ar drefniadau ar gyfer dychwelyd adref yn ddiogel.
- Yn gwybod pa ofal a chymorth dilynol sydd ar gael.

# Creu atgofion

Mae creu atgofion yn cael ei gydnabod fel rhan bwysig o ofal i lawer o deuluoedd yn dilyn y farwolaeth, er bod dewisiadau'n amrywio. Efallai y bydd teuluoedd yn teimlo'n ansicr o ran yr hyn sy'n teimlo'n iawn ar hyn o bryd. Mae staff yn darparu cymorth tawel, sensitif ac unigol, gan gynnig dewisiadau heb bwysau na rhagdybiaeth. Mae gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n cefnogi urddas, dewis ac amser.

## Timau

### Darperir cymorth personol, sensitif, i greu atgofion pan:

- Mae staff yn esbonio dewisiadau creu atgofion yn glir ac yn dyner, heb ragdybiaeth na phwysau.
- Mae teuluoedd yn cael amser i ystyried opsiynau a newid eu meddyliau.
- Mae gwybodaeth am yr hyn y byddant yn ei weld o bosibl yn cael ei rhannu'n sensitif.
- Mae'r staff yn gyfarwydd ag adnoddau creu atgofion sy'n cael eu defnyddio'n lleol.
- Mae gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig yn cael ei rhannu am dreulio amser y tu allan i amgylchedd yr ysbyty, gan gynnwys canllawiau a dewisiadau lleol, a chaiff hyn ei hwyluso mewn ffordd urddasol a thosturiol.
- Mae creu atgofion yn adlewyrchu dewisiadau teuluoedd, gan gynnwys iaith, beichiogrwydd, rhywedd, diwylliant, crefydd a chredoau personol.
- Mewn beichiogrwydd lluosog, mae cymorth i greu atgofion yn adlewyrchu'r golled a'r beichiogrwydd sy'n parhau, gyda gofal cydlynol ar draws timau.

## Teuluoedd

### Wrth i staff esbonio'n glir a chefnogi dewisiadau creu atgofion, bydd teuluoedd:

- Yn cael amser a lle i ystyried sut maen nhw'n dymuno nodi a chofio eu baban neu eu beichiogrwydd.
- Yn cael eu cefnogi i ddeall y dewisiadau sydd ar gael iddynt, heb bwysau i benderfynu.
- Yn cael gwybodaeth glir a sensitif am beth i'w ddisgwyl, gan gynnwys sut y gall creu atgofion effeithio ar ymddangosiad.
- Yn cael gofal sy'n parchu dewisiadau diwylliannol, ysbrydol a phersonol.
- Yn dawel eu meddwl y gallant newid eu meddwl am benderfyniadau i greu atgofion ar unrhyw adeg.
- Yn gweld eu dymuniadau'n cael eu hadlewyrchu yn y gofal a ddarperir.
- Yn gwybod bod cymorth ar gael i frodyr a chwiorydd a'r teulu ehangach.

# Ar ôl Terfynu Beichiogrwydd oherwydd Anomaledd y Ffetws (TOPFA)

Ar ôl TOPFA, mae gofal yn cael ei arwain a'i gydlynu mewn ffordd amlwg. Bydd teuluoedd yn cael eu cefnogi i ddeall ymchwiliadau, Archwiliad Post-mortem a threfniadau dilynol, gan gynnwys pwy sy'n arwain trafodaethau a beth fydd yn digwydd nesaf. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n breifat, ar gyflymder maen nhw'n gallu delio ag ef, gyda chrynodebau ysgrifenedig yn cael eu darparu i gefnogi dealltwriaeth a lleihau dryswch.

## Timau

**Mae gofal sy'n cael ei gydlynu, ei gyfleu'n glir a'i reoli ar ôl TOPFA yn cael ei ddangos pan:**

- Mae canllawiau lleol ar waith sy'n nodi'n glir pwy sy'n arwain trafodaethau am ymchwiliadau a phrosesau dilynol.
- Mae digon o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer trafodaethau, sy'n cael eu cynnal mewn lleoliad tawel a phreifat.
- Mae gwybodaeth gymhleth yn cael ei hegluro'n glir ac ar gyflymder y mae teuluoedd yn gallu delio ag ef, ac mae rhywun yn gwneud yn siŵr eu bod yn deall gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu cydnabyddedig.
- Mae crynodeb ysgrifenedig o'r prosesau y cytunwyd arnynt a'r dogfennau gofynnol yn cael eu darparu.
- Mae angen trosglwyddo Archwiliadau Post-mortem i ysbyty arall, yng Nghymru neu'r tu allan iddi, caiff hyn ei egluro'n glir, gan gynnwys yr amserlenni disgwyliedig.

## Teuluoedd

**Mae teuluoedd yn cael gofal sy'n lleihau dryswch ac yn cefnogi dealltwriaeth. Maent:**

- Yn gwybod pwy sy'n arwain trafodaethau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi o ran dilyniant mewn gofal.
- Yn cael digon o amser i drafod ymchwiliadau a'r camau nesaf mewn lleoliad preifat.
- Yn cael gwybodaeth ar gyflymder maen nhw'n gallu delio ag ef ac yn teimlo eu bod yn gallu gofyn cwestiynau.
- Yn cael eu holi a ydynt yn deall beth sy'n digwydd a beth fydd yn digwydd nesaf.
- Yn cael gwybodaeth ysgrifenedig i'w cefnogi i ddilyn y prosesau gofynnol.

# Ymchwiliadau ac Archwiliadau

Bydd archwiliadau ac ymchwiliadau yn cael eu cynnig i gefnogi dealltwriaeth teuluoedd o anomaledd y ffetws ac unrhyw oblygiadau ar gyfer beichiogrwydd yn y dyfodol. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal yn sensitif, gan gydnabod y gallai rhai teuluoedd fod wedi cael nifer o ymchwiliadau eisoes ac y gallai trafodaeth bellach beri gofid iddynt. Bydd gwybodaeth glir, onest am yr hyn y gellir ei gynnig yn cael ei rhannu, ac unrhyw gyfyngiadau.

## Histology

### Timau

**Mae timau sy'n darparu gofal yn rhoi gwybodaeth glir a gonest am yr hyn sy'n cael ei argymell, beth sy'n ddewisol, y cyfyngiadau, a'r amserlen pan fyddant yn egluro:**

- Ei bod yn gyffredin cynnal archwiliad histolegol a faint o amser y gall hyn ei gymryd.
- Pan fydd archwiliad histolegol o'r beichiogrwydd neu'r brych yn cael ei argymell, bydd hyn yn cael ei egluro i'r teulu ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau ar yr archwiliad.
- Efallai na fydd yr archwiliad hwn yn darparu gwybodaeth am achos posibl am y farwolaeth.
- Efallai y bydd ymchwiliadau eraill yn cael eu cynnal, fel profion gwaed a geneteg.

### Teuluoedd

**Mae teuluoedd yn cael gofal clir a gonest pan fyddant yn gwybod:**

- Bod histoleg yn arfer cyffredin ac mai eu dewis nhw yw ei chynnal ai peidio.
- Sut a phryd y maent yn debygol o gael canlyniadau.
- Pa ymchwiliadau eraill y gellir eu cynnal.

# Archwiliad Post-mortem

## Timau

### Dangosir ymarfer clir a sensitif pan:

- Mae caniatâd post-mortem yn cael ei roi i aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi a'i gofrestru i gael **caniatâd**.
- Mae pwrpas, proses a chyfyngiadau Archwiliadau Post-mortem yn cael eu hegluro'n glir ac yn sensitif.
- Mae'r archwiliad yn cael ei gynnal mewn ysbyty arall, gan gynnwys y tu allan i Gymru, caiff hyn ei egluro'n glir ynghyd â'r rhesymau a'r amserlenni disgwyliedig.
- Mae trefniadau cludo a thrin yn cael eu disgrifio'n glir, gan gynnwys pwy sy'n gyfrifol, gyda sicrwydd bod y gofal yn barchus ac yn urddasol.
- Mae amserlenni tebygol ar gyfer dychwelyd corff y baban neu olion y beichiogrwydd yn cael eu trafod, a phryd bydd y canlyniadau ar gael.
- Mae cyswllt penodol yn cael ei nodi i gydlynu'r gwaith o gyfleu canlyniadau.
- Mae eitemau personol yn mynd gyda'r archwiliad, bydd teuluoedd yn cael eu sicrhau bod eitemau'n cael eu trin yn ofalus a'u dychwelyd lle bynnag y bo modd, er na ellir gwarantu hyn.
- Mae teuluoedd yn cael eu cyfeirio at yr adnoddau gwybodaeth sydd ar gael i gefnogi dealltwriaeth o gydsyniad post-mortem.

## Teuluoedd

### Mae teuluoedd yn cael gofal diogel, clir a gwybodus pan fyddant:

- Yn cael esboniadau clir ynghylch pam y gallai post-mortem gael ei argymell.
- Yn deall pwy fydd yn nodi cydsyniad a sut bydd y broses yn cael ei chynnal, gan gynnwys y pwrpas ac unrhyw gyfyngiadau.
- Yn cael gwybod os bydd corff eu baban neu olion eu beichiogrwydd yn cael ei drosglwyddo ac yn deall pam.
- Yn teimlo'n dawel eu meddwl ynghylch sut y bydd eu baban neu olion eu beichiogrwydd yn cael gofal wrth iddynt gael eu cludo a'u harchwilio.
- Yn deall yr amserlen debygol ar gyfer dychwelyd eu baban neu olion eu beichiogrwydd ac o ran cael y canlyniad.
- Yn gwybod â phwy i gysylltu ynghylch camau dilynol a chanlyniadau.

# Cofrestru ac Ardystio

Mae'r trefniadau ar gyfer cofrestru ac ardystio yn amrywio yn dibynnu ar y cyfnod beichiogrwydd ac amgylchiadau'r farwolaeth neu'r golled. Mae gofal ar y cam hwn yn cael ei gydlynu a'i gyfleu'n glir, gan gydnabod bod y prosesau hyn yn digwydd ochr yn ochr â galar acíwt.

## Timau

### Bydd cefnogaeth sensitif a chywir yn cael ei rhoi o ran cofrestru ac ardystio pan:

- Mae timau'n egluro prosesau cofrestru ac ardystio'n glir ac yn sensitif, yn unol â chyfnod y beichiogrwydd a'r amgylchiadau.
- Mae trafodaethau yn cael eu cynnal mewn lleoliad preifat, gyda digon o amser i holi cwestiynau.
- Mae gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei rhoi i gefnogi teuluoedd i lywio drwy'r prosesau cofrestru ac ardystio.
- Mae teuluoedd yn cael cynnig tystysgrifau sy'n nodi colledion cyn 24 wythnos gan The Miscarriage Association, The Ectopic Pregnancy Trust a Sands.
- Mae'r cyfrifoldeb dros arwain trafodaethau yn glir, gyda chysondeb lle bynnag y bo modd.

## Teuluoedd

### O ganlyniad i'r gefnogaeth hon, mae teuluoedd:

- Yn deall pa gofrestriad neu ardystiad sydd ei angen yn eu hamgylchiadau nhw.
- Yn gwybod pwy sy'n eu cefnogi gyda'r prosesau hyn a phwy i gysylltu â nhw i ofyn cwestiynau.
- Yn cael gwybodaeth ar gyflymder maent yn gallu delio ag ef, mewn lleoliad preifat a pharchus.
- Yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i lywio'r broses gofrestru ac ardystio ochr yn ochr â'u galar.
- Yn cael mynediad at wybodaeth ysgrifenedig i gyfeirio ati ar ôl trafodaethau.

# Angladdau, Claddu ac Amlosgi

Mae'r trefniadau hyn yn rhan o'r prosesau yn dilyn marwolaeth, er nad oes gofyniad cyfreithiol ar gyfer angladdau, claddu nac amlosgi o dan 24 wythnos o feichiogrwydd. I deuluoedd, mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn ystod cyfnod sy'n arwyddocaol yn emosiynol ac efallai y byddant yn teimlo eu bod yn anodd eu trafod. Mae staff yn tywys teuluoedd drwy'r dewisiadau sydd ar gael iddynt a'r amserlenni, gan ddarparu gwybodaeth glir a chaniatáu amser iddynt feddwl. Mae teuluoedd yn cael gofal sy'n cefnogi dewis ar sail gwybodaeth ac sy'n parchu sut a phryd mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.

## Timau

### Bydd cefnogaeth sensitif a gwybodus ynghylch y trefniadau hyn yn cael ei chynnig pan:

- Mae gan staff fynediad at adnoddau gwybodaeth cyfredol i gefnogi trafodaethau am gladdu ac amlosgi.
- Mae teuluoedd yn cael amser i ystyried pob opsiwn, gan gynnwys y cyfle i feddwl gartref cyn cadarnhau penderfyniad.
- Mae penderfyniadau, gan gynnwys pan fydd gwybodaeth yn cael ei gwrthod neu pan na fydd penderfyniad yn cael ei wneud, yn cael eu cofnodi'n glir yn y cofnod mamolaeth.
- Mae rhagdybiaethau'n cael eu hosgoi, gan gynnwys y rhai sy'n seiliedig ar gyfnod beichiogrwydd, diwylliant, crefydd neu gredoau personol.
- Mae atgyfeiriad at ofal ysbrydol neu fugeiliol yn cael ei gynnig, wedi'i arwain gan ddewisiadau'r teulu.

Mae'r wybodaeth lafar ac ysgrifenedig fydd yn cael ei rhannu â theuluoedd yn cynnwys:

- Dewisiadau claddu neu amlosgi wedi'u trefnu gan yr ysbyty ac unrhyw gostau cysylltiedig.
- Y broses ar gyfer dewis trefniadau preifat, gan gynnwys manylion trefnwyr angladdau lleol.
- Esboniad clir y gall rhai trefnwyr angladdau ddarparu gwasanaethau sylfaenol yn ddi-dâl, tra gallai gwasanaethau ychwanegol arwain at gostau.
- Amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau a'u cyfleu, gan gynnwys proses yr ysbyty os na chaiff penderfyniad ei gyfleu.
- Gwybodaeth am ofynion claddu neu amlosgi brys lle mae'r rhain yn codi am resymau clinigol neu gyfreithiol.

## Teuluoedd

### Wrth i staff esbonio a chefnogi trefniadau, mae teuluoedd:

- Yn deall yr opsiynau sydd ar gael iddynt ar gyfer claddu neu amlosgi.
- Yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser cyn cadarnhau penderfyniadau.
- Yn deall yr hyn y gall yr ysbyty ei drefnu a'r hyn y gallant ddewis ei drefnu eu hunain.
- Yn cael gwybodaeth glir am gostau ac amserlenni.
- Yn teimlo bod eu dewisiadau diwylliannol, crefyddol a phersonol yn cael eu parchu.
- Yn gwybod ble i gael gafael ar ragor o gymorth os oes angen help arnynt i wneud penderfyniadau.

# Ar ôl gadael yr ysbyty

Mae'r Gofal mewn Profedigaeth yn parhau wrth baratoi i adael yr ysbyty a dychwelyd adref. Mae gwybodaeth yn cael ei chydlynu a'i chyfleu'n glir i gefnogi teuluoedd wrth wella'n gorfforol a delio â galar acíwt.

## Timau

### Cyn rhyddhau, mae gofal yn cael ei ddangos pan:

- Mae gwybodaeth glir yn cael ei rhoi i deuluoedd am boen barhaus, gwaedu a newidiadau corfforol ôl-enedigol, gan gynnwys pryd a sut i ofyn am gyngor meddygol.
- Mae llaethiad yn cael ei drafod yn sensitif, gan gynnwys ataliad, gwasgiad neu roi yn dibynnu ar y cyfnod beichiogrwydd a dewis y fenyw/sawl sy'n rhoi genedigaeth.
- Mae archwiliadau corfforol ôl-enedigol ac apwyntiad(au) dilynol clinigol yn cael eu cynnig.
- Mae manylion y gofal dilynol yn cael eu hegluro'n glir, gan gynnwys yr amseriad, y lleoliad a phwy gaiff fod yn bresennol.
- Mae'r cymorth seicolegol ac emosiynol sydd ar gael drwy wasanaethau amenedigol, gofal sylfaenol a sefydliadau trydydd sector yn cael ei egluro.
- Mae gwybodaeth am reoli gohebiaeth sy'n ymwneud â babanod yn cael ei rhannu, gan gynnwys dewisiadau cynlluniau postio cenedlaethol.
- Mae'r holl drafodaethau, penderfyniadau a chynlluniau y cytunwyd arnynt yn cael eu cofnodi'n glir yn y cofnod meddygol.

## Teuluoedd

### Wrth i drefniadau dilynol gael eu hegluro, eu cydlynu a'u hailystyried gan staff, bydd teuluoedd:

- Yn gwybod pwy fydd yn cysylltu â nhw gyda chanlyniadau unrhyw adolygiadau ac ymchwiliadau.
- Yn gwybod sut i drefnu ôl-drafodaeth a'r broses ar gyfer rhoi adborth, cyfleu pryderon neu gwynion.
- Yn cael gwybodaeth am eu symptomau corfforol, eu proses wella a sut i gael gafael ar ofal parhaus.
- Yn gwybod pa wasanaethau cymorth seicolegol ac emosiynol sydd ar gael iddynt.
- Yn cael gwybodaeth am fudiadau cefnogi lleol a chenedlaethol.
- Yn cael gwybodaeth am reoli gohebiaeth sy'n ymwneud â babanod.

GIG CYMRU NHS WALES

Perfformiad a Gwella

Performance and Improvement